Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Tywyn
**Station Road**
**Tywyn**
**Gwynedd**
**LL36 9EU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Tywyn

Ysgol uwchradd naturiol ddwyieithog yw Ysgol Uwchradd Tywyn ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Mae wedi ei lleoli yn nhref glan y môr Tywyn yn yr hen sir Feirionnydd yng Ngwynedd. Mae 268 o ddisgyblion ar y gofrestr o'i gymharu â 298 adeg yr arolygiad diwethaf yn 2012. Mae nifer y disgyblion wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn dros y deg mlynedd diwethaf ac mae hyn wedi arwain at doriadau arwyddocaol mewn cyllid a staffio.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o'r dref yn bennaf, yn ogystal â'r pentrefi cyfagos a'r ardal wledig eang. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ffyniannus nac ychwaith dan anfantais economaidd. Mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys i ginio ysgol am ddim, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol, sef 17%. Mae 33% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 3% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Daw 19% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac ychydig iawn sydd yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2009 ac mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Tywyn yn gymuned hynod o ofalgar a chynhwysol. Mae’r pennaeth a’r holl staff yn arddel diwylliant o ddisgwyliadau uchel a pharch at eraill. Mae arweinyddiaeth effeithiol iawn wedi arwain at safonau lles rhagorol a lefel eithriadol o ofal a chymorth i ddisgyblion. Mae hefyd wedi arwain at safonau cadarn dros amser ac addysgu o ansawdd da.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn rhagorol ac mae llawer yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr iawn at fywyd a gwaith yr ysgol. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Maent yn datblygu’n ddisgyblion annibynnol gydag agweddau cadarn iawn at ddysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig ar gyfer y disgyblion mwy abl ac yn y Gymraeg

A2 Cryfhau a sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol

A3 Gwella ansawdd hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ymysg arweinwyr canol

A4 Mynd i’r afael â’r ddyled ariannol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag agweddau disgyblion at ddysgu ac ar ansawdd y gofal, cymorth a’r arweiniad a roddir iddynt, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr annibynnol a gwydn sydd yn gwneud cynnydd cryf mewn gwersi ac wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn llwyddiannus wrth adalw dysgu blaenorol yn gywir ac maent yn gwneud defnydd buddiol o'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth gyflawni tasgau newydd.

Mewn ychydig o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad sylweddol yn eu medrau meddwl. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn llwyddiannus wrth gyflawni tasgau rhesymu cymhleth mewn mathemateg neu ddadansoddi ystyr cudd a darllen rhwng y llinellau wrth astudio testun llenyddol mewn gwersi Saesneg. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn datblygu medrau datrys problemau cadarn mewn amryw sefyllfaoedd, er enghraifft wrth weithio'n annibynnol i ddatrys ystyr geiriau anghyfarwydd, neu wrth wrando ar gerddoriaeth a gwerthuso arddulliau o wahanol gyfnodau cerddorol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud a pharchus ar yr athro ac ar gyfraniadau gan ddisgyblion eraill. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac yn trafod eu syniadau'n frwdfrydig mewn parau neu grwpiau bach. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion yn cynnig ymatebion estynedig ar lafar, yn egluro ffeithiau yn hyderus a chywir gydag ystod eang o eirfa bynciol. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio terminoleg addas wrth ddadansoddi llenyddiaeth ac yn trafod effaith ffurf a thechneg yn y nofel 'Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr'. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cyfrannu'n hyderus a synhwyrol i drafodaethau dosbarth yn ystod sesiynau boreol ac mewn gwersi. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymestyn eu hymatebion nac yn egluro'u safbwyntiau mewn digon o ddyfnder.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn. Yn gyffredinol, pan maent yn cael y cyfle, mae llawer o'r disgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus a chyda mynegiant priodol. Maent yn fedrus wrth gywain gwybodaeth, lleoli ffeithiau a dod i gasgliadau dilys wrth ddarllen tystiolaeth o amrywiol ffynonellau. Mewn gwersi celf, mae llawer yn ymchwilio yn hyderus i ystod o ffynonellau ysgrifenedig gan bwyso a mesur manteision ac anfanteision gwahanol arddulliau. Ar draws y pynciau, mae llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus wrth ystyried safbwyntiau cyferbyniol ar wahanol bynciau llosg, fel gosod melinau gwynt. Mae gan leiafrif o ddisgyblion mwy abl afael gadarn ar uwch fedrau darllen. Maent yn cyflwyno dadansoddiadau treiddgar o destunau darllen gan ddefnyddio termau technegol yn fwriadus. Yn ogystal, maent yn dadansoddi cerddi a thestunau llenyddol a ffeithiol yn fedrus gan ddefnyddio dyfyniadau yn gelfydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, er bod y mwyafrif o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o destunau darllen, mae diffyg dyfnder i'w dadansoddi ac maent yn tueddu i wneud sylwadau arwynebol wrth drafod effaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch at ddiwyg eu llyfrau ac maent yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus, yn rhesymegol a chyda llawysgrifen dda. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n addas ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau ac mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gynulleidfa. Maent yn gwneud defnydd buddiol o

fframiau ysgrifennu ar gyfer gwahanol ffurfiau ysgrifennu er mwyn strwythuro eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion yn y gwersi hanes yn llwyddiannus wrth ysgrifennu erthygl papur newydd ar Frwydr Hastings neu lythyr am Wiliam y Concwerwr. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ailddrafftio eu gwaith yn llwyddiannus pan fo angen.

Mae gafael y disgyblion mwyaf abl ar sillafu a chystrawen yn Saesneg yn gadarn ac maent yn cynnwys geirfa gyfoethog yn eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi ar draws y pynciau, oherwydd diffyg arweiniad, mae ystod geirfa llawer o ddisgyblion yn gyfyngedig ac felly maent yn cael trafferth ysgrifennu'n annibynnol. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau ysgrifennu yn y gwersi hyn. Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth y mwyafrif o ddisgyblion o reolau atalnodi a gramadeg yn y Gymraeg yn briodol. Fodd bynnag, mae gwallau niferus yng ngwaith disgyblion llai abl.

Yn y mwyafrif o wersi iaith, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau ysgrifennu creadigol wrth gyfansoddi cerddi ac ysgrifennu storïau. Ar draws y pynciau, mae llawer o ddisgyblion yn fedrus wrth ysgrifennu'n annibynnol ac estynedig. Er enghraifft, yn y gwersi gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn egluro prosesau gwyddonol yn fanwl. Defnyddiant derminoleg a geirfa bynciol eang yn hyderus a chywir wrth ddisgrifio'r broses o echdynnu haearn o'i ocsid gan ddefnyddio carbon yn y ffwrnais chwyth.

Ar draws yr ystod oedran, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhif cadarn. Yn y gwersi mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni gwaith mathemateg pen yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau ehangach,er enghraifft wrth ddefnyddio 'Theorem Pythagoras' i ddatrys problemau sydd wedi eu seilio ar sefyllfa bywyd bob dydd. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion hefyd yn cymhwyso eu medrau rhif yn llwyddiannus mewn pynciau heblaw mathemateg. Yn y gwersi daearyddiaeth, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gyfartaleddau wrth gyfrifo buanedd y gwynt ac yna dehongli eu canlyniadau yn briodol. Mewn gwersi technoleg, mae disgyblion yn trosi gwahanol unedau metrig yn gywir wrth ddylunio cynnyrch.

Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau priodol yn eu gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau technoleg gwybodaeth ar draws y pynciau eraill oherwydd diffyg cyfleoedd.

Mewn lleiafrif o wersi, lle ceir cyfleoedd diddorol ac ysgogol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau creadigol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i dasgau sy'n eu galluogi i ddangos dychymyg a chreadigrwydd, er enghraifft wrth greu pamffled yn cyflwyno gwybodaeth ar y chwe math o ecosystem yn y gwersi daearyddiaeth, wrth ddychmygu bod yn ddarpar frenin yn eu gwersi hanes, neu drwy ysgrifennu cerddi am y Rhyfel Byd Cyntaf yn Saesneg.

Mae perfformiad disgyblion cyfnod allweddol 4 mewn llawer o ddangosyddion pwysig dros y tair blynedd diwethaf yn gryf ac yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ddiwedd cyfnod allweddol 2 i ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae'r perfformiad yn y dangosydd lefel 2 sydd yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn gryf am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Dros amser, mae'r perfformiad yn y dangosydd hwn yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn gyson gryf iawn ac yn cymharu'n ffafriol iawn â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg..

Mae'r nifer o ddisgyblion sydd yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf, er mai Saesneg yw eu hiaith gyntaf, yn uchel iawn. Mae'r rhan fwyaf yn ennill cymhwyster yn y pwnc a lleiafrif yn ennill cymhwyster lefel 2.

Mae cyfran y disgyblion sydd yn ennill pump TGAU gradd A*-A neu gyfwerth wedi amrywio dros amser ac wedi disgyn ers 2015. Yn 2017 mae'n is na pherfformiad cyfartalog mewn ysgolion tebyg.

Yn y dangosyddion sydd yn cynnwys pum gradd TGAU A*-C ac A*-G neu gyfwerth ac yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, mae perfformiad bechgyn a merched dros y tair blynedd diwethaf yn gryf iawn o'i gymharu â pherfformiad merched a bechgyn mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad merched a bechgyn yn Saesneg hefyd yn gyffredinol gadarn. Fodd bynnag, yn y dangosydd sydd yn cynnwys 5 gradd TGAU A*-C neu gyfwerth yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, mae perfformiad bechgyn a merched wedi bod yn amrywiol dros amser.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf iawn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster ers dros bedair blynedd. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae pob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae disgyblion Ysgol Uwchradd Tywyn yn arddangos agweddau cadarn iawn at yr ysgol a'u haddysg. Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn hynod o gwrtais ac yn barchus iawn at ei gilydd, at bob aelod o staff ac ymwelwyr, yn eu gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn cynrychioli'r ysgol yn wych wrth drafod gydag ymwelwyr ac maent yn llawn balchder wrth siarad am eu gwaith ac am fywyd yr ysgol. Maent yn meddu ar fedrau cymdeithasol cryf ac yn trafod materion a mynegi eu safbwyntiau yn aeddfed gydag oedolion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn rhagorol, yn canolbwyntio drwy gydol y wers gan ddyfalbarhau pan wynebant dasgau astrus. Mae llawer yn arddangos lefel uchel o ddycnwch wrth ddatrys problemau ac yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain. Maent yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni tasgau'n annibynnol yn gyntaf neu drafod gyda chymheiriaid cyn gofyn i'r athro am gefnogaeth. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol a brwdfrydig mewn parau a grwpiau. Er enghraifft, yn y gwersi Ffrangeg, mae llawer o ddisgyblion iau yn arddangos lefel uchel o fwynhad wrth ddysgu rheolau gramadegol trwy gyd-chwarae gemau iaith pwrpasol.

Mae nifer uchel o ddisgyblion yn mynychu clybiau, gwersi cymorth a gweithgareddau allgyrsiol mewn sesiynau boreol, yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa'n fawr o sesiynau arbenigol buddiol iawn i wella eu lles emosiynol, meddyliol a chymdeithasol.

Mae gwaith y Cyngor Ysgol wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar lawer o agweddau o fywyd yr ysgol, megis yr ethos cynhaliol a chefnogol, a'r amgylchedd dysgu. Mae disgyblion sydd yn rhan o grwpiau ffocws yn cyflawni llawer iawn o'u gwaith yn annibynnol ar staff yr ysgol. Mae'r Fforwm Eco wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar amgylchedd yr ysgol trwy greu gardd, lleihau'r defnydd o blastig a chynyddu'r ddarpariaeth i ailgylchu nwyddau. Mae'r disgyblion sydd ynghlwm wrth y 'Fforwm Cymraeg' wedi chwarae rhan bwysig yn hybu agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at y Gymraeg yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol at greu system newydd i hybu defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yn yr ysgol ac yn y gymuned drwy'r 'Cynllun Calon'. Yn ddiweddar, lluniodd aelodau o'r fforwm 'Byw'n Iach' lyfr rysetiau apelgar yn llawn prydau diddorol i hybu bwyta ac yfed yn iach er mwyn eu gwerthu yn y gymuned.

Mae llawer o ddisgyblion yn weithgar iawn trwy'r flwyddyn yn trefnu a chynnal digwyddiadau codi arian at elusennau. Yn ogystal, maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i'r gymuned leol. Er enghraifft, y llynedd, bu'r disgyblion yn gyfrifol am greu ffilm i hybu diogelwch ar y rheilffyrdd ar y cyd â chwmni rheilffordd cenedlaethol. Yn ddiweddar, bu grŵp o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn rhaglen deledu i gyflwyno gwybodaeth am eu gwaith ar ddiogelwch personol ar y we.

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac o'r farn nad yw bwlio yn achos gofid. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n hyderus fod athrawon a staff eraill yn delio'n dda iawn ag unrhyw broblemau all godi.

Mae cyfraddau presenoldeb yn uchel iawn dros amser ac yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfraddau presenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn gyson wedi lleihau yn sylweddol dros amser.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn Ysgol Uwchradd Tywyn yn dda.

Mae gan bron bob athro wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn llwyddo i feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'r disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Maent yn frwdfrydig am eu pwnc ac yn cynllunio gwersi'n ofalus gan baratoi adnoddau dengar a diddorol sydd yn ysgogi'r disgyblion. Maent yn cynllunio cyfres o weithgareddau strwythuredig sydd yn datblygu dealltwriaeth ac annibyniaeth disgyblion yn llwyddiannus. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn esbonio cysyniadau yn glir ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymarfer a datblygu eu gwybodaeth bynciol a'u medrau. Trwy hyn, maent yn llwyddo i ddatblygu dysgwyr dygn sydd yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu.

Mae'r tempo sionc a welir mewn llawer o'r gwersi yn golygu bod bron bob disgybl yn canolbwyntio'n llawn trwy gydol y wers ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau

cychwyn. Mae'r athrawon yn cylchu'r dosbarth yn ofalus i fonitro cynnydd y disgyblion, gan ddefnyddio'r adnabyddiaeth sydd ganddynt o'r disgyblion i ymyrryd yn bwrpasol, lle bo angen. Mae cymorthyddion dysgu yn cyflawni gwaith effeithiol iawn i gynorthwyo disgyblion yn y gwersi.

Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn briodol er mwyn profi eu gwybodaeth, ac mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio holi yn fedrus i herio disgyblion yn effeithiol a'u galluogi i ddyfnhau eu dealltwriaeth.

Mewn ychydig o achosion, nid yw disgwyliadau'r athrawon yn ddigon uchel. Yn y gwersi hyn, nid yw'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ddigon manwl i ymestyn yr holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf abl. Ar adegau, nid yw athrawon yn enghreifftio atebion ac arferion da i sicrhau bod disgyblion yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ohonynt.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr ac adeiladol ar waith ac ymdrech disgyblion. Mae llawer ohonynt yn rhoi adborth ysgrifenedig pwrpasol ar waith disgyblion sydd yn caniatáu iddynt wybod sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw sylwadau lleiafrif o athrawon yn ddigon miniog a phenodol i sicrhau bod ansawdd y gwaith yn gwella. Yn gyffredinol, mae disgwyliadau athrawon o ymateb disgyblion i adborth yn rhy amrywiol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn llwyddo i ddiwallu anghenion bron bob disgybl. Fel rhan o'u gwaith o fod yn ysgol sy'n arloesi gyda'r cwricwlwm newydd, mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol wrth arbrofi â modelau cwricwlaidd gwahanol yng nghyfnod allweddol 3. Enghraifft o hyn yw'r cydweithio effeithiol rhwng nifer o adrannau wrth gyflwyno'r uned "Ein Bro" ym Mlwyddyn 7.

Gwna uwch arweinwyr ddefnydd medrus o wybodaeth am ddymuniadau astudio disgyblion wrth gynllunio cwricwlwm cyfnod allweddol 4. Cynigir amrywiaeth eang o gyrsiau, gan gynnwys pynciau fel seryddiaeth. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â choleg lleol i sicrhau dewis eang o gyrsiau galwedigaethol, megis y cwrs peirianneg poblogaidd.

Mae'r arlwy eang o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr megis clybiau chwaraeon poblogaidd, y clwb codio a'r dosbarthiadau meistr ar gyfer disgyblion mwy abl, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Yn ogystal, ceir 'Wythnos Gyfleoedd' lwyddiannus sydd yn cynnig profiadau eang awyr agored.

Cynllunia'r ysgol yn fanwl er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus. Mae'r gwaith wedi ei gydlynu'n fedrus er mwyn sicrhau bod strategaethau cyson yn cael eu defnyddio gan athrawon. O ganlyniad, mae disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio'u medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Enghraifft o hyn yw'r defnydd buddiol o fapiau meddwl mewn addysg grefyddol er mwyn crynhoi a strwythuro syniadau disgyblion cyn iddynt ysgrifennu llythyr yn disgrifio'r profiad o fod mewn Gŵyl Sikhaidd Baisakhi. Yn gyffredinol, mae cyfleoedd priodol ar draws y cwricwlwm i ddatblygu medrau TGCh disgyblion, ond prin yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu'u huwch fedrau yn y maes hwn.

Mae ymyraethau llwyddiannus er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau darllen a rhif gwan. Gwneir defnydd cynhyrchiol o gymorthyddion dysgu a disgyblion hŷn yr ysgolion i gefnogi disgyblion mewn sesiynau darllen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu Cymreictod yn elfen gref o waith yr ysgol. Mae arlwy eang o weithgareddau hwyliog sydd yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Yn ystod y cyfnod diweddar, mae'r ysgol wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf gan ennill cymhwyster yn y pwnc.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae lles disgyblion a'u datblygiad fel dysgwyr cyflawn, parchus a balch yn greiddiol i waith Ysgol Uwchradd Tywyn. Mae'r ysgol yn gymuned eithriadol o ofalgar a chynhwysol sydd â diwylliant o ddisgwyliadau uchel a pharch at eraill. Mae hyn wedi cael effaith hynod o gadarnhaol ar ymddygiad, lles a chynnydd academaidd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth eithriadol i gefnogi disgyblion bregus. Enghraifft nodedig yw'r 'Clwb Cystadweithio' sy'n cefnogi disgyblion Blwyddyn 7 wrth iddynt ymgartrefu a chymdeithasu ar ddechrau eu gyrfa ysgol. Mae sesiynau meddylgarwch llesol yn codi hyder a hunan-barch disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n hynod o effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol er mwyn cefnogi lles, iechyd a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Mae hyn oll yn cyfoethogi dealltwriaeth y staff o anghenion disgyblion unigol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu diwallu'n llwyddiannus.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r amryfal weithgareddau allgyrsiol sy'n ymateb i drawstoriad eang o ddiddordebau disgyblion. Enghraifft arbennig yw'r clwb 'parkour' poblogaidd sy'n datblygu medrau corfforol, cymdeithasol, a chreadigol y disgyblion yn effeithiol. Mae cyfradd uchel o ddisgyblion yn datblygu eu medrau personol ac ieithyddol wrth gynnal clwb gemau Cymraeg yn wythnosol.

Ceir darpariaeth werthfawr ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy wasanaethau a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae cyfraniadau pwysig nifer o siaradwyr allanol yn cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o ystod eang o faterion cymdeithasol. Enghraifft nodedig yw siaradwr o India yn trafod parch at grefyddau a diwylliannau eraill. O ganlyniad i'r ddarpariaeth werthfawr hon, mae'r disgyblion yn gwneud datblygiad cadarn fel dinasyddion cyfrifol, goddefgar a pharchus.

Mae arweinwyr yn ymddiried yn llwyr yng ngallu disgyblion i ysgwyddo cyfrifoldebau ac ymgymryd â rolau arweiniol. Mae disgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig â rolau amrywiol sydd yn eu datblygu i fod yn ddinasyddion gweithredol a chyfrifol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel cyfeillion darllen i ddisgyblion iau ac yn arwain amrywiol fforymau barn.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach a diwrnodau thematig buddiol a diddorol ar bynciau megis cyffuriau, iechyd meddwl a thrais yn y cartref. Enghraifft nodedig yw'r ddarpariaeth addysg perthnasoedd iach ac addysg rhyw. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i ddatblygu

perthnasoedd cadarnhaol ac i adnabod ac ymateb i sefyllfaoedd lle gallent deimlo'n annifyr, yn anghyfforddus neu o dan fygythiad. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Derbynia'r disgyblion arweiniad a chyngor gwerthfawr wrth wneud penderfyniadau am eu dewis o bynciau yn yr ysgol ac ar gyfer y cam nesaf yn eu bywyd.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn elwa'n llawn o'r holl brofiadau dysgu ac yn gwneud cynnydd cryf dros amser. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau meintiol, buddiol i ddisgyblion a chyngor defnyddiol i athrawon. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r disgyblion hyn a'u rhieni i osod targedau addas ac i fonitro cynnydd disgyblion yn fanwl.

Mae cymorthyddion dysgu yn gwneud cyfraniad sylweddol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth. Maent yn darparu cefnogaeth werthfawr iawn i ddisgyblion mewn gwersi a grwpiau ymyrraeth.

Ceir systemau dibynadwy a chyson i olrhain cynnydd academaidd, presenoldeb a lles disgyblion. Mae rhain yn caniatáu i'r ysgol adnabod yn brydlon ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac ymyrryd yn syth er mwyn mynd i'r afael â'u gofynion unigol. Mae rhaglen gynhwysfawr o ymyraethau effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau sylfaenol gwan neu anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol.

Mae'r adroddiadau blynyddol ac interim yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am gynnydd eu plentyn. Maent yn cynnwys cyngor defnyddiol a thargedau penodol ar gyfer gwella.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae pennaeth yr ysgol yn arweinydd didwyll a doeth sy'n uchel ei pharch ymhlith y staff, y disgyblion a'r gymuned. Gweithia'n ddiflino er mwyn cynnig cyfle cyfartal a phrofiadau ysgogol i ddisgyblion y dalgylch. Seilir ei gweledigaeth uchelgeisiol ar gynnig profiadau addysgol o'r safon uchaf tra'n cynnal lles disgyblion mewn ethos cynhaliol. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n argyhoeddedig a chlir gyda holl randdeiliaid yr ysgol. O ganlyniad, mae'r holl staff yn coleddu'r un gwerthoedd. Mae hyn wedi sicrhau safonau uchel, addysgu effeithiol ac agweddau eithriadol y disgyblion tuag at ddysgu.

Caiff y pennaeth gefnogaeth gadarn gan y dirprwy bennaeth, sy'n rhannu'r un gwerthoedd ac uchelgais. Mae'r uwch dîm arwain yn meddu ar ddisgwyliadau uchel ac yn arddel y rhain yn glir yn eu gwaith o osod cyfeiriad strategol i'r ysgol. Maent wedi ymateb yn egnïol a brwd i weithredu blaenoriaeth y llywodraeth i hyrwyddo'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy eu cynllunio bwriadus a blaengar.

Mae gan yr holl reolwyr ddealltwriaeth glir o'u rôl ac maent yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau'n llawn. Ceir strwythurau clir o gyfarfodydd llinell, adrannol a staff sydd yn sicrhau bod y ffocws yn gyson ar safonau a chynnydd disgyblion. Mae'r llinellau atebolrwydd yn glir ac mae uwch arweinwyr yn gosod disgwyliadau eglur o ran yr hyn a ddisgwylir gan arweinwyr canol ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu iddynt reoli eu llwyth gwaith yn effeithiol ac yn rhoi trefn a chyfeiriad pendant i'r gwaith rheolaethol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant ble mae pwyslais amlwg ar ddysgu proffesiynol parhaus.  Er gwaetha'r sefyllfa gyllidebol dynn, mae arweinwyr wedi sicrhau bod cyfleoedd mynych i'r holl staff ehangu a mireinio eu gwybodaeth broffesiynol.  Mae rhaglen gynhwysfawr o weithdai wythnosol, dyddiau hyfforddiant, cymunedau dysgu proffesiynol, rhwydweithiau proffesiynol lleol, cyrsiau allanol ac ymweliadau â sefydliadau eraill.  Mae arweinwyr hefyd wedi sicrhau bod arfer dda o fewn yr ysgol yn cael ei lledaenu.  Drwy gyfres o bartneriaethau strategol a hyfforddiant, mae'r rheolwyr canol yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r arferion gorau ac maent yn rhannu'r rhain yn fuddiol gyda'r staff.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn brofiadol a theyrngar ac maent yn gwarchod buddiannau'r ysgol yn ofalus.  Gwneir defnydd effeithiol iawn o brofiad ac arbenigeddau aelodau o'r corff llywodraethol i gefnogi meysydd penodol yn yr ysgol.  Mae'r corff wedi gweithredu'n gadarn iawn i sicrhau bod adnoddau a chyllid angenrheidiol yn cael eu darparu wrth i'r ysgol wynebu toriadau ariannol.  Maent yn adnabod yr ysgol yn dda iawn ac mae ganddynt wybodaeth sicr am ddata perfformiad a'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella.  Mae ganddynt gysylltiadau defnyddiol ag adrannau penodol ac mae llawer o'r corff wedi chwarae rhan werthfawr mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd adrannol.

Trwy brosesau hunanarfarnu effeithiol, mae'r ysgol yn adnabod yn gywir ei chryfderau a meysydd sydd angen eu datblygu ac yn gweithredu'n gadarn i gynllunio ar gyfer gwella.  Mae enghreifftiau clir ble mae'r ysgol wedi llwyddo i wella agweddau pwysig o'i gwaith, megis safonau mewn mathemateg a Saesneg ac ansawdd yr addysgu.

Mae calendr o weithgareddau hunanarfarnu a phrosesau sicrhau ansawdd defnyddiol.  Mae'r gweithgareddau'n cynnwys dadansoddiadau trylwyr o ddata, arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau a chyfleoedd buddiol i ddisgyblion, staff a rhieni leisio eu barn.  Caiff y rhain eu gweithredu'n rheolaidd ac mae holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â'r broses.  O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddarlun clir a gonest o waith yr ysgol.  Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn sylfaen gadarn i arweinwyr allu adnabod arfer dda ac i benderfynu pa agweddau sydd angen sylw.  Serch hyn, nid yw'r adroddiad yn gwneud digon o ddefnydd o'r canfyddiadau o arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau er mwyn barnu safonau, medrau a chynnydd disgyblion.

Mae cysylltiad amlwg rhwng y meysydd i'w gwella yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.  Mae arweinwyr wedi dewis yn ddoeth y prif faterion sydd angen eu datblygu ac wedi rhoi ar waith gamau synhwyrol i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r rhain.  Fodd bynnag, nid oes digon o sylw penodol i wella cyflawniad disgyblion mwy abl.  Mae'r cynllun yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir a threfniadau pwrpasol o ran cyfrifoldebau a therfyniadau amser.  Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn ofalus a chyson.

Ar y cyfan, mae arweinwyr canol yn deall y prif gryfderau a'r gwendidau o fewn eu hadrannau ac mae ganddynt gynlluniau gwella synhwyrol sydd yn cyd-fynd â chynllun yr ysgol.  Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb o ran effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith hunanarfarnu arweinwyr canol.

Ceir cysylltiadau clir rhwng y rhaglen datblygiad proffesiynol, blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion hyfforddiant a gaiff eu hamlygu trwy'r drefn rheoli perfformiad.  Mae'r drefn hon yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i staff adolygu cynnydd yn erbyn eu targedau, ynghyd â thrafod eu datblygiad proffesiynol cyffredinol, ddwywaith y

flwyddyn.  Serch hyn, mae gormod o anghysondeb a diffyg eglurder o ran nifer a natur y targedau rheoli perfformiad.  Trwy gefnogaeth a her, mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarn i unrhyw achos o danberfformiad staff.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a gwariant yn ofalus.  Mae ganddynt strategaeth gyllido bwrpasol lle mae cysylltiad agos rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau gwella'r ysgol.  Caiff y ddarpariaeth a meintiau dosbarthiadau eu monitro'n fanwl er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddyled ariannol gyfredol sydd wedi ei thrwyddedu gan yr awdurdod addysg lleol.  Er y wasgfa ariannol yn sgil y gostyngiad sylweddol yn niferoedd y disgyblion dros y cyfnod diweddar, mae'r ysgol wedi llwyddo i gynnal safonau uchel ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau i gynorthwyo cyflawniad disgyblion mwyaf bregus yr ysgol, megis trefnu trafnidiaeth i ddisgyblion allu mynychu gweithgareddau wedi oriau ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2018